

Agor y Llyfr

Soniwyd yr wythnos ddiwethaf am y gobaith o allu cyflwyno'r cynllun 'Agor y Llyfr' yn rhai o ysgolion cynradd yr ardal gan ddechrau, os gellir trefnu, hynny yn Neiniolen.

Mae'n syniad syml iawn: mae tim o bobl yn darllen stori o fersiwn syml o'r Beibl i'r plant yn y gwasanaeth boreol. Mae gan y Parchg Carol Roberts dim o bobl sy'n cyflwyno 'Agor y Llyfr' yn Ysgol Cwm-y-glo bob pythefnos ers ychydig fisoedd. Mae hi'n awyddus iawn i allu gwneud peth tebyg mewn ysgolion eraill yn yr ardal.

Byddai angen tim o ryw 6 o bobl i wneud hynny, ac mae'n gobeithio y gall rhai o aelodau'r capeli gydweithio ag aelodau Eglwys Crist, Llandinorwig.

Cawn ragor o wybodaeth yn fuan, ond am y tro, os yw'r syniad o fod yn rhan o'r tim yn apelio at unrhyw un ohonoch, rhowch wybod i mi.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Tachwedd 16: Bydd Oedfa Deulu am 10.00 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal y Gweinidog.

Y mis nesaf - Deiniolen

Tachwedd 9

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Reuben Roberts

Tachwedd 16

10.00 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Tachwedd 23

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr Robert Morris

CAPEL COCH A NANT PADARN
Dydd Mawrth, Tachwedd 11: Bore Coffi rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch er bydd Crobfa Adnoddau'r Capel.

Nos Fawrth, Tachwedd 11: Cynhelir y Gymdeithas Undebol am 7.00 o'r gloch yng nghwmni Mr Eifion Jones. Gwneir casgliad at Ambiwllans Awyr Cymru.

Dydd Sul, Tachwedd 16: Oedfa am 10.00 o'r gloch yng ngofal Colin Jones a Gareth Jones. Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal aelodau Parti Bytholwyrdd.

REHOBOTH

Dydd Sul, Tachwedd 16: Dim oedfa.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Tachwedd 14: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.



Y mis nesaf - Llanberis

Tachwedd 9

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Tachwedd 16

10.00 a.m. - Oedfa yng ngofal
Colin Jones a Gareth Jones
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa yng ngofal aelodau
Parti Bytholwyrdd

Tachwedd 23

10.30 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 612 - Dydd Sul, 09 Tachwedd, 2014

Chwarter canrif

25 mlynedd i heddiw y 'syrthiodd' Wal Berlin, ar Dachwedd 9, 1989. Roedd y Wal wedi amgylchu rhan orllewinol prif ddinas yr Almaen ers 1961. Dros nos, rhwng Awst 12 a 13, 1961 codwyd ffens weiren bigog i wahanu Gorllewin Berlin oddi wrth Ddwyrain Berlin a Dwyrain yr Almaen. Wedi'r Ail Ryfel Byd, rhannwyd yr Almaen yn bedwar rhanbarth, tri dan awdurdod yr Unol Daleithiau, Ffrainc a'r Deyrnas Unedig yng ngorllewin y wlad, a'r pedwerydd dan awdurdod yr Undeb Sofietaidd yn y dwyrain.

Yn 1949, ffurfiwyd dwy wlad newydd. Daeth Gweriniaeth Ffederal yr Almaen i fodolaeth ym mis Mai trwy uno tri rhanbarth y gorllewin (Gorllewin yr Almaen), a throdd y pedwerydd yn Weriniaeth Ddemocrataidd yr Almaen ym mis Hydref (Dwyrain yr Almaen). Penderfynwyd y dylai prif ddinas yr hen Almaen, Berlin, aros dan reolaeth y pedwar pŵer rhyngwladol. Ac felly, o 1949 ymlaen roedd gorllewin Berlin (sef tri rhan y ddinas a osodwyd dan reolaeth y tri phŵer 'Gorllewinol') yn perthyn i Orllewin yr Almaen er bod y ddinas gyfan yn ddaearyddol o fewn tiriogaeth Dwyrain yr Almaen.

Ac yna, nos Sadwrn, Awst 12, 1961, gorchynnodd llywodraeth Dwyrain yr Almaen godi'r Wal er mwyn rhwystro pobl rhag dianc i Orllewin yr Almaen trwy symud o un rhan o ddinas Berlin i'r llall. Roedd y ffens weiren bigog yn ymestyn am 96 o filltiroedd o amgylch rhan orllewinol y ddinas, gan ynysu'r

rhan honno o'r ddinas oddi wrth y rhan ddwyreiniol ac oddi wrth Orllewin yr Almaen. Yn fuan wedyn, aed ati i godi'r Wal ei hun yn lle'r ffens wreiddiol, ac am 28 o flynyddoedd wedi hynny roedd y wal goncridd 12 troedfedd o uchder yn gwahanu pobl a theuluoedd Berlin oddi wrth ei gilydd. Roedd hefyd yn symbol o'r 'Rhyfel Oer' a fu'n blino gwledydd Ewrop ar hyd y cyfnod hwnnw.

Ond ar Dachwedd 9, 1989 cyhoeddodd llywodraeth Dwyrain yr Almaen bod y Wal i gael ei dymchwel. Agorwyd y pyrth yn y wal y noson honno, a chaed rhyddid i bobl deithio o'r naill ochr i'r ddinas i'r llall. Gwelwyd pobl ar ben y Wal yn dathlu, ac yn dechrau ei malu. Wedi hynny, cafodd y Wal ei dymchwel, er bod rhannau ohoni wedi eu cadw, i gofio'r holl hanes trist.

Mae'r llythyr at yr Effesiaid (2:14) yn sôn am y 'canolfur o elyniaeth' oedd yn gwahanu'r Iddewon oddi wrth y Cenhedloedd. Roedd hwnnw'n fwy cadarn o lawer na Wal Berlin hyd yn oed. Ond dywed Paul fod y mur hwnnw wedi ei chwalu un dydd trwy farwolaeth Iesu ar groes Calfaria. Mae marwolaeth Crist wedi ei gwneud yn bosibl i'r Iddewon a'r Cenhedloedd gael eu cymodi â Duw ac â'i gilydd. Wrth gofio'r modd y chwalwyd Wal Berlin, gallwn ddiolch hefyd am y mur cadarnach a chwalwyd trwy farwolaeth ac atgyfodiad yr Arglwydd Iesu, er mwyn sicrhau ffordd glir a dirwystri i bobl i berthynas gywir â'r Duw Byw.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed i Dduw fendithio ein haddoliad.

Bydd yr Ysgol Sul yn Neiniolen, am 10.15 o'r gloch a gwasanaethir yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Reuben Roberts, Bontnewydd. Croeso cynnes iddo a diolch yn fawr iddo am ei wasanaeth.

Byddaf fi'n arwain yr oedfa yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. A bydd yr oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal Andrew a minnau.

Byddaf yn arwain yn Rehoboth am 2.00 o'r gloch.

Cofion

Cyfarfod Blynyddol Cynllun Efe

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Efe yng Nghapel y Rhos nos Lun diwethaf dan lywyddiaeth Mr Richard Lloyd Jones, Bethel.

Agorwyd y cyfarfod mewn gweddi gan y Parchg Marcus Robinson. Cyflwynwyd adroddiad am waith Efe dros y flwyddyn ddiwethaf gan Andrew a minnau. Roedd yn dda cael croesawu'r Parchg Gwyn Rhydderch, Tudweiliog atom. Roedd yn cynrychioli Trobwynt, yr elusen debyg i Efe yn Llyn ac Eifionydd sy'n rhannu gwasanaeth Andrew ar hyn o bryd (ers mis Mai) yn ystod cyfnod absenoldeb mamolaeth gweithwraig Trobwynt. Dywedodd ei fod yn ddiolchgar i ni fel ymddiriedolwyr Efe am gytuno i rannu gwasanaeth Andrew dros dro. Roedd yn ddiolchgar hefyd i Andrew am y cyfan y mae yn ei wneud i Trobwynt.

Cafwyd wedyn adroddiad ariannol cryno gan Drysorydd Efe, Mr Clive James, Caernarfon.

Diolchwyd i Andrew am ei holl waith, a phenderfynwyd anfon adroddiad eleni eto i gefnogwyr y Cynllun i ddiolch am eu cefnogaeth. Caiff hynny ei wneud gobeithio cyn y Nadolig.

Bydd yr apêl ariannol flynyddol yn cael ei gwneud yn y flwyddyn newydd.

Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor cefnogi ac ymddiriedolwyr y Cynllun ar ddiwedd y Cyfarfod Blynyddol.

CIC

Bydd cyfarfod nesaf CIC yn Capel Coch nos Wener yr wythnos hon, nos Wener, Tachwedd 14, am 7.00 o'r gloch.

Cofiwch bod croeso cynnes i unrhyw un o Flwyddyn 6 ymlaen i'r cyfarfod hwn.

Sul y Cofio

Ar Sul y Cofio, gweddiwn o'r newydd dros bobl ym mhob rhan o'r byd sy'n dioddef oherwydd rhyfeloedd ddoe a rhyfeloedd heddiw.

'Gwared ni, O Dduw, rhag dyrchafu rhyfel mewn unrhyw fodd, a dyro i ni ac i bobl y byd gariad at heddwch a dyhead am gymod, er mwyn Iesu Grist.'

Bore Coffi

Cynhelir y Bore Coffi misol yn festri Capel Coch rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch, ddydd Mawrth, Tachwedd 11 er budd Cronfa Adnoddau'r Capel.

Cymdeithas Undebol

Cynhelir Cymdeithas Undebol Llanberis nos Fawrth, Tachwedd 11 am 7.00 o'r gloch yn Capel Coch.

Mr Eifion Jones, sy'n gweithio fel swyddog cyhoeddusrwydd i wasanaeth Ambiwllans Awyr Cymru fydd y gwr gwadd nos Fawrth, a bydd yn sôn am waith yr Ambiwllans Awyr.

Gwneir casgliad at Ambiwllans Awyr Cymru ar ddiwedd y cyfarfod, a cheir cyfle felly i gefnogi'r gwaith trwy ein rhoddion.

Dosbarth Beiblaidd

Roedd Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn ail gychwyn nos Fercher ddiwethaf. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, Tachwedd 19.

Er ei bod braidd yn gynnar o bosibl, hanes y Nadolig fydd y maes trafod am y cyfarfodydd nesaf. Bwriedir edrych ar hyn a ddywed y Beibl am faban Mair trwy gymryd y garol 'Ar gyfer heddiw'r bore' yn fath o ddrws i mewn i'r Beibl ei hun. Buom yn trafod pennill cyntaf y garol yr wythnos ddiwethaf.

Bocsys Nadolig

Diolch yn fawr iawn am y bocsys a'r rhoddion ariannol sydd wedi cyrraedd at Ymgyrch Plentyn y Nadolig.

Dowch â'r bocsys neu'r rhoddion i'r capel neu yma i Gilfynydd, Llanberis erbyn nos Sul nesaf, Tachwedd 16 os gwelwch yn dda er mwyn i mi fynd â'r cyfan i Wrecsam yr wythnos wedyn.

Cyfarfod Gweddi Efe

Cynhelir y Cyfarfod Gweddi nesaf yn nhy Andrew Settatree, Cartref, Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch fore Gwener, Tachwedd 14.

Croeso i unrhyw un ddod atom, ac nid oes rhaid poeni am ddod bob wythnos os nad yw'n hwylus wrth gwrs.

Cardiau Nadolig

Mae cardiau Nadolig Cyngor Ysgolion Sul i'w cael am £2 y pecyn gan Valerie Jones, Bryn Gelli gyda'r elw at Ysgol Sul, Capel Coch, neu gan Mrs Jane Thorman Jones gyda'r elw at Ysgol Sul Deiniolen.

Ffair Nadolig

Cynhelir Ffair Nadolig yn Capel Coch am 2.30 o'r gloch, ddydd Mercher, Tachwedd 26 er budd Cronfa Cynnal a Chadw'r capel.

Bydd amrywiaeth o stondinau, ac arnynt nwyddau Nadolig. Bydd y byrddau gwerthu arferol ar gyfer bric-a-brac, llyfrau, cacennau ac ati.

Os oes gennych nwyddau ar gyfer y byrddau, byddem yn falch iawn ohonynt er mwyn sicrhau llwyddiant y Ffair.

Pris mynediad yn cynnwys paned a chacen fydd £1.

Croeso cynnes i bawb.